Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol**

**Dyddiad:** **06 Tachwedd 2009**

**Gan:** **Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

Cafodd y Mesur Llywodraethu a Diwygio Cyfansoddiadol ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar 20 Gorffennaf a chynhaliwyd ei ail ddarlleniad ar 20 Hydref.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi manteisio ar y cyfle y mae'r Mesur Seneddol hwn yn ei roi i geisio am bwerau i'r Cynulliad i wneud mesurau mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hwn yn Fesur Seneddol eang ei gwmpas sy'n ymdrin â nifer o feysydd polisi gwahanol.  Ceir ynddo ddarpariaethau i:

- gwblhau'r broses o ddileu'r egwyddor etifeddiaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi
- diarddel Arglwyddi sydd wedi'u cael yn euog o drosedd ddifrifol
- caniatau i Arglwyddi ymddiswyddo
- rhoi sail statudol i God y Gwasanaeth Sifil, recriwtio ar gyfer y Gwasanaeth Sifil a rôl Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil
- creu sail statudol i'r Senedd allu craffu ar gytuniadau cyn eu dilysu
- dod â chysylltiad y Prif Weinidog â phenodi barnwyr yng Nghymru a Lloegr i ben
- creu strwythur corfforaethol newydd ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- safoni trefniadau cyfrifydda cyrff cyhoeddus anadrannol
- diddymu deddfwriaeth sy'n cyfyngu ar wrthdystio o gwmpas Senedd Westminster
- safoni'r terfyn amser ar gyfer dwyn camau cyfreithiol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ledled y DU.

Ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 4 Tachwedd, cytunodd Llywodraeth y DU ar welliant i gynnwys pŵer yn y Mesur Seneddol i wneud Mesurau Cynulliad.  Cyn belled â bod y Senedd yn ei gymeradwyo, bydd y gwelliant i'r Mesur Seneddol yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu trwy Fesur Cynulliad, ar dhrefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Archwilydd

Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Ni fydd rhoi'r cymhwysedd i'r Cynulliad yn amharu ar annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i weithredu.

Byddai'r Mesur fel y'i diwygiwyd, o'i gymeradwyo, yn mewnosod Mater newydd (14.1) yn y Maes Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn Rhan 1 o Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cynulliad 2006. Mae Rhan 1 yn rhestru'r "materion" y caiff y Cynulliad ddeddfu yn eu cylch.

Bydd hefyd yn diwygio Rhan 2 yr Atodlen, sy'n gosod cyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd y Cynulliad a fyddai fel arall yn rhwystro'r Cynulliad rhag diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, fel Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. I'r perwyl hwn, mae'r Mesur Seneddol fel y'i diwygiwyd, yn gwneud eithriad bach i'r cyfyngiadau cyffredinol hynny, er mwyn i Fesur gan y Cynulliad allu newid Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a rhai darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 cyn belled mai pwrpas hynny fydd rhoi'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y darperir ar eu cyfer ym Mater 14.1 yn eu lle.

Mae'r cymhwysedd yn ymdrin yn arbennig â thelerau penodi'r Archwilydd Cyffredinol o ran hyd ei gyfnod yn y swydd a'i gyflog, sawl tro y ceir penodi person yn Archwilydd Cyffredinol, ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd, swyddi eraill y câi Archwilydd Cyffredinol neu gyn-Archwilydd Cyffredinol eu dal, awdurdodi pobl eraill i wneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, goruchwylio ac arolygu'r Archwilydd Cyffredinol a darparu adnoddau i'r Archwilydd Cyffredinol a chodi ffïoedd a symiau eraill.

Mae'r cymhwysedd yn sicrhau y parheir i ddiogelu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Ni châi'r Cynulliad felly ddefnyddio Mesur ganddo i ddiddymu'r amddiffyniad a roddir gan baragraff 3 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu nad yw'r Cynulliad na Llywodraeth y Cynulliad yn cael rhoi cyfarwyddyd i'r Archwilydd Cyffredinol na'i reoli.

Byddai'r cymhwysedd yn ei gwneud hi'n bosibl trosglwyddo swyddogaethau Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad o ran ystyried amcangyfrifon a chyfrifon ac adroddiad ar gyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol i Bwyllgor arall o'r Cynulliad. Fodd bynnag, caiff Mesur Cynulliad ond trosglwyddo'r swyddogaethau hyn i Bwyllgor sydd heb aelodaeth Llywodraeth y Cynulliad.

Gan fod y Mesur Seneddol yn darparu bod rhai swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cyflawni yn y dyfodol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cafodd gwelliant arall ei basio a fydd yn rhwystro'r Cynulliad rhag cyflwyno Mesur i newid swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol heb ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Cydsyniodd Llywodraeth y Cynulliad i'r gwelliant hwn gan ei fod i'w weld yn estyniad naturiol ond heb fod yn arwyddocaol o'r cyfyngiad cyffredinol sydd eisoes yn bod ar swyddogaethau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae Memorandwm Esboniadol sy'n rhoi cefndir a chyd-destun y pwerau yr ydym yn eu ceisio i wneud Mesurau'r Cynulliad wedi'i roi ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cewch weld y Mesur Seneddol a’r nodiadau esboniadol cysylltiedig yn:
http://services.parliament.uk/bills/2008-09/constitutionalreformandgovernance.html